**Y CABINET**
**18 MEHEFIN 2024**

Cofnodion cyfarfod Cabinet Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we trwy gyfwng Zoom, ddydd Mawrth, 18 Mehefin 2024.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Roberts (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Sean Bibby, Chris Bithell, Mared Eastwood, Dave Healey, Dave Hughes, Paul Johnson, Christine Jones, a Linda Thomas.

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Tai a Chymunedau), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Corfforaethol - Pobl a Datblygu Sefydliadol, Rheolwr Corfforaethol - Rhaglen Gyfalaf ac Asedau, Rheolwr Cyllid Strategol, Rheolwr Gwasanaethau Rhaglenni Tai, ac Arweinydd Tîm - Gwasanaethau Democrataidd.

**AELODAU ERAILL YN BRESENNOL:**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Helen Brown, David Coggins Cogan a Chrissy Gee.

**YMDDIHEURIADAU:**
Y Cynghorydd: Dave Healey

## 4. DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Bithell gysylltiad personol ag eitem rhif 9: Arolwg Gwerthuso Perfformiad Arolygiaeth Gofal Cymru o'r Gwasanaethau Cymdeithasol Tachwedd 2023 - Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu.

## 5. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 Mawrth, 24 Ebrill a 30 Mai.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd fel cofnod cywir.

## 6. DIWEDDARIAD PERFFORMIAD AR GYNLLUN GWEITHREDU'R STRATEGAETH TAI

Cyflwynodd y Cynghorydd Bibby yr adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ddarparu'r Cynllun Cyflawni Strategaeth Tai 2019 - 2024 gan ganolbwyntio'n benodol ar y flwyddyn ariannol 2023/24.

Roedd gan y Strategaeth Tai gynllun cyflawni a oedd yn gosod 3 blaenoriaeth strategol a gweithgaredd cysylltiol i gyflawni'r blaenoriaethu hynny:

- Blaenoriaeth 1: Cynyddu'r cyflenwad i ddarparu'r math cywir o gartrefi yn y lleoliad cywir.
- Blaenoriaeth 2: Darparu cefnogaeth i sicrhau bod pobl yn byw ac yn aros yn y math cywir o
- gartref.
- Blaenoriaeth 3: Gwella ansawdd a chynaliadwyedd cartrefi.

Dywedodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) bod hwn yn adroddiad blynyddol a oedd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau. Atodwyd y wybodaeth ddiweddaraf am bob un o'r blaenoriaethau i'r adroddiad. Roedd yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Thai lle cafodd yr argymhellion eu cefnogi.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Bithell, eglurodd y Prif Swyddog bod darpariaeth y gwasanaeth tai statudol yn cael ei hariannu drwy Gronfa'r Cyngor.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Bod y cynnydd ar gyflawni Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Tai 2019–2024 yn cael ei nodi; a

(b) Bod yr heriau a amlinellwyd yn yr adroddiad yn cael eu nodi:
  - Alinio safonau a'r gyfradd ymyrryd ar gyfer caffaeliadau o dan y Grant Tai Cymdeithasol gyda'r rhai o'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro.
  - Yr amserlen ddiweddaraf i adnewyddu'r Strategaeth Tai gyfredol

## 7. <u>'GYDA'N GILYDD FE ALLWN NI' – CYDNERTHEDD A HUNANDDIBYNIAETH CYMUNEDOL</u>

Cyflwynodd y Cynghorydd Johnson adroddiad oedd yn rhoi trosolwg o adroddiad Archwilio Cymru "'Gyda'n gilydd fe allwn ni' – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedol", oedd yn trafod sut y gallai meithrin cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedol helpu i leihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau awdurdodau lleol yn y dyfodol, pe bai awdurdodau lleol yn newid o fod yn 'ddarparwr uniongyrchol' i fod yn 'alluogwr'.

'Gyda'n gilydd fe allwn ni' oedd y trydydd adroddiad a gyhoeddwyd gan Archwilio Cymru mewn cyfres a oedd yn canolbwyntio ar dlodi a beth oedd llywodraeth leol yn ei wneud i fynd i'r afael â hyn. Roedd yr adroddiad hefyd yn amlygu argymhellion a disgwyliadau Archwilio Cymru o ran camau nesaf awdurdodau lleol.

Eglurodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) y byddai'r argymhelliad yn yr adroddiad yn galw am waith ar draws sefydliadau a chefnogaeth ariannol ar adeg pan oedd y Cyngor yn wynebu pwysau cyllidebol sylweddol a byddai angen buddsoddiad parhaus er mwyn iddo fod yn llwyddiant.

Roedd yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Thai a gynigodd argymhelliad pellach, sef *"Bod y Pwyllgor yn*

*cydnabod gwaith nifer o sefydliadau gwirfoddol ac unigolion ar hyd a lled y Sir ac yn cyfleu hyn i'r Cabinet wrth ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 18 Mehefin".*

Dywedodd y Cynghorydd Roberts bod argymhellion o'r fath angen buddsoddiad ariannol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Diolchodd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu am yr argymhelliad ychwanegol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod canfyddiadau ac argymhellion adroddiad Archwilio Cymru "'Gyda'n gilydd fe allwn ni' – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedol" yn cael eu nodi; a

(b) Bod yr ymateb a argymhellir mewn perthynas ag argymhellion Archwilio Cymru yn cael ei nodi a chefnogi bod hyn yn cael ei adrodd i'r Pwyllgorau priodol ym mis Mehefin 2024.

**8. ADRODDIAD ARCHWILIO CYMRU (DEFNYDDIO GWYBODAETH AM BERFFORMIAD: SAFBWYNT A CHANLYNIADAU DEFNYDDWYR GWASANAETH)**

Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas adroddiad a oedd yn rhoi manylion am yr archwiliad Defnyddio Gwybodaeth am Berfformiad: Safbwynt a Chanlyniadau Defnyddwyr Gwasanaeth.

Roedd yn astudiaeth genedlaethol a bu i Archwilio Cymru gynnal y gwaith hwn yng Nghyngor Sir y Fflint yn ystod mis Gorffennaf a mis Medi 2023. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Rhagfyr 2023.

Roedd yr archwiliad yn ceisio:

- cael sicrwydd bod yr wybodaeth am berfformiad y mae'r Cyngor yn ei darparu i uwch-swyddogion ac aelodau etholedig yn eu galluogi i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniad ei weithgareddau;
- cael sicrwydd bod yr wybodaeth hon yn ffurfio rhan o drefniadau sicrhau gwerth am arian y Cyngor wrth iddo ddefnyddio ei adnoddau ac wrth iddo gymhwyso'r
  egwyddor datblygu cynaliadwy; ac
- adnabod cyfleoedd i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau.

Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) nad oedd unrhyw argymhellion ffurfiol wedi cael eu nodi a bod tri argymhelliad ar gyfer gwella wedi codi o'r archwiliad hwn, gyda'r Cyngor yn darparu camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion ar gyfer gwella. Ychwanegodd fod y Cyngor eisoes wedi dechrau gweithio ar yr hyn a oedd wedi cael ei argymell yn y cynllun gweithredu a chyfeiriodd at enghreifftiau o adborth gan fudd-ddeiliaid a chwsmeriaid yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau Cabinet.

Roedd yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a oedd wedi awgrymu *"Mewn perthynas â phenderfyniadau gwasanaeth a pholisi allweddol, yn cynnwys unrhyw newidiadau i wasanaethau, bod adroddiadau'n cynnwys Safbwyntiau Defnyddwyr Gwasanaeth ar y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd." A, "Bod y*

*Cabinet yn ystyried y dylid cynnal arolwg blynyddol o ddefnyddwyr gwasanaeth wrth gyflwyno biliau Treth y Cyngor."*

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y camau gweithredu a gynlluniwyd gan y Cyngor mewn ymateb i'r argymhellion ar gyfer gwella yn cael eu cefnogi;

(b) Mewn perthynas â phenderfyniadau gwasanaeth a pholisi allweddol, yn cynnwys unrhyw newidiadau i wasanaethau, bod adroddiadau'n cynnwys Safbwyntiau Defnyddwyr Gwasanaeth ar y canlyniadau sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd; a

(c) Bod yr argymhelliad bod arolwg blynyddol o'r preswylwyr yn cael ei gynnal yn cael ei ystyried yr un pryd ag adroddiad ar arolwg cenedlaethol o breswylwyr sy'n cael ei gynnig gan CLILC.

## 9. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG 2023/24

Cyflwynodd y Cynghorydd Eastwood yr adroddiad ac eglurodd fod angen i Gyngor Sir y Fflint lynu at Safonau'r Gymraeg, fel y nodir yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a gyflwynwyd i'r Cyngor yn 2015.

Roedd yr Hysbysiad yn rhoi dyletswydd statudol ar y Cyngor i gyhoeddi adroddiad blynyddol yn nodi sut yr oedd wedi bodloni Safonau'r Gymraeg.

Pwrpas yr adroddiad oedd cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2023/24 ac roedd yn darparu trosolwg o gynnydd y Cyngor wrth gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a nodi meysydd ar gyfer cynnydd a gwelliant pellach.

Darparodd y Rheolwr Corfforaethol - Rhaglen Gyfalaf ac Asedau wybodaeth am fentrau mwy; recriwtio siaradwyr Cymraeg; meysydd i'w gwella; a chwynion.

Yn ystod y 12 mis nesaf, roedd y Cyngor yn anelu i:

- Ddatblygu Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg i gynyddu nifer y gweithwyr sy'n defnyddio'r Gymraeg er mwyn gallu darparu gwasanaethau dwyieithog.
- Lleihau nifer y gweithwyr sy'n nodi nad oes ganddynt sgiliau Cymraeg.
- Parhau i lenwi hunanasesiadau yn erbyn Safonau'r Gymraeg i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i gydymffurfio.

Byddai ardal ar y wefan fewnol i gyfeirio Aelodau a swyddogion at yr hyn oedd ar gael i'w cefnogi, megis brawddegau cyffredin. Yn ogystal, byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cabinet yn y dyfodol ar y gost o ddarparu gwasanaethau cyfieithu mewn cyfarfodydd.

**PENDERFYNWYD:**

Bod Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2023/24 yn cael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## 10. ARCHWILIO CYMRU: ASESIADAU O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB: MWY NAG YMARFER BLWCH TICIO

Cyflwynodd y Cynghorydd Thomas yr adroddiad gan egluro bod Archwilio Cymru, ym mis Medi 2022, wedi cyhoeddi adroddiad ar ei ganfyddiadau o ddefnydd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yng Nghymru.

Nod yr archwiliad oedd rhoi cipolwg ar y dull o ymdrin ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Roedd yr adroddiad "Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy Nag Ymarfer Blwch Ticio?" yn nodi pedwar argymhelliad a saith maes gwella allweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus. Roedd yr adroddiad yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau sy'n cael eu cymryd i gyflawni'r argymhellion a oedd yn berthnasol i gyrff cyhoeddus.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y cynnydd i ddiwallu'r argymhellion gan Archwilio Cymru yn "Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag Ymarfer Blwch Ticio?" yn cael ei nodi.

## 11. AROLWG GWERTHUSO PERFFORMIAD AROLYGIAETH GOFAL CYMRU O'R GWASANAETHAU CYMDEITHASOL TACHWEDD 2023 – Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y CYNLLUN GWEITHREDU

Cyflwynodd y Cynghorydd Jones yr adroddiad ac eglurodd fod Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cyhoeddi ym mis Hydref y byddent yn ymweld â Sir y Fflint i ymgymryd ag Arolygiad Gwerthuso Perfformiad llawn o Wasanaethau Plant ac Oedolion.

Diben yr arolwg oedd adolygu perfformiad yr awdurdod lleol mewn ymarfer ei ddyletswyddau a swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â deddfwriaeth, ar ran Gweinidogion Cymru. Hwn oedd yr arolygiad llawn cyntaf i'r portffolio ei gael ers dros wyth mlynedd ac roedd yn gyfle i arddangos yr arfer creadigol ac arloesol yn Sir y Fflint.

Cyhoeddwyd yr adroddiad llawn ar 22 Chwefror 2024 ac roedd, ar y cyfan, yn gadarnhaol o ran y canfyddiadau ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd cynllun gweithredu wedi cael ei lunio yn seiliedig ar yr argymhellion a wnaed gan yr arolygwyr.

Diolchodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) i'r tîm a oedd wedi cefnogi'r gwaith a oedd angen ei wneud drwy'r arolwg heriol. Ychwanegodd fod yr arolygwyr wedi gwneud sylwadau ar y gefnogaeth gadarnhaol a ddarparwyd gan Gynghorwyr. Roedd yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd lle cafodd yr argymhellion eu cefnogi. Diolchodd y Cynghorydd Roberts i'r Prif Swyddog a'r tîm.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi canlyniad yr adroddiad a chefnogi'r Cynllun Gweithredu canlyniadol.

## 12. CYMUNEDAU SY'N GYFEILLGAR I OED

Cyflwynodd y Cynghorydd Jones yr adroddiad a oedd yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad cymunedau sy'n gyfeillgar i oed yn Sir y Fflint ac yn ceisio ymrwymiad ar gyfer cefnogaeth barhaus ar draws meysydd portffolio.

Roedd y 'Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio' gan Lywodraeth Cymru yn nodi'r camau gweithredu oedd eu hangen i alluogi pobl yng Nghymru i heneiddio'n dda a byw o fewn cymunedau sy'n gyfeillgar i oed. I gefnogi'r strategaeth, darparwyd cyllid Llywodraeth Cymru i'r holl awdurdodau lleol i'w cefnogi i wneud cais a chynnal aelodaeth Dinasoedd a Chymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed Sefydliad Iechyd y Byd.

Ym mis Mai 2023, derbyniodd Cyngor Sir y Fflint gadarnhad o'i gais llwyddiannus i ymuno â Rhwydwaith Cyfeillgar i Oed Sefydliad Iechyd y Byd ar ôl dangos ymgysylltiad helaeth â phobl hŷn ac ystod o wasanaethau a mentrau cyfeillgar i oed yn y sir.

Fel aelod o Rwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd, roedd Sir y Fflint wedi datblygu cynllun cyfeillgar i oed i amlinellu'r camau gweithredu oedd eu hangen ar gymunedau yn Sir y Fflint i ddod yn fwy cyfeillgar i oed. Roedd y cynllun yn seiliedig ar strategaethau a pholisi lleol a chenedlaethol, ac ar flaenoriaethau ac anghenion a nodwyd drwy ymgysylltu â'r gymuned. Roedd y cynllun yn ddogfen weithio a byddai'n datblygu yn unol â blaenoriaethau sy'n newid a strategaethau newydd.

Roedd Sir y Fflint yn bodloni ymrwymiadau i ddarparu canolfannau gwybodaeth ar-lein ac i rannu enghreifftiau o'r arfer orau ar draws Cymru ac yn fyd-eang. Roedd hyn wedi cynnwys cyfraniadau at newyddlen Cyfeillgar i Oed Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, gwnaed cyflwyniad gan ddinasyddion o grwpiau cymunedol Sir y Fflint, gyda chefnogaeth gan y tîm Gwasanaethau Cymdeithasol, yng Nghynhadledd Cymru Oed-gyfeillgar y Comisiynydd Pobl Hŷn ar 8 Tachwedd 2023. Cafwyd ymateb da iawn i'r gwaith ac roedd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

Roedd yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd lle cafodd ei gefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y cynnydd a wnaed i ddatblygu cymunedau sy'n gyfeillgar i oed yn Sir y Fflint gan gynnwys y cais llwyddiannus am aelodaeth gyda Rhwydwaith Fyd-eang Sefydliad Iechyd y Byd; a

(b) Bod y Cabinet yn ymrwymo i ddarparu cefnogaeth a chydweithrediad parhaus i'r holl dimau gwasanaeth i gynorthwyo i ddatblygu Sir y Fflint fel lle gwych i fyw ar gyfer y boblogaeth sy'n heneiddio.

## 13. ADRODDIAD ARCHWILIO FFIOEDD GOHIRIEDIG

Cyflwynodd y Cynghorydd Jones yr adroddiad ac eglurodd bod archwiliad o ffioedd gohiriedig a rheoli atebolrwydd gofal preswyl mewn Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael ei gynnal fel rhan o raglen waith Archwilio Mewnol ar gyfer 2022/23.

Roedd Taliad Gohiriedig ond ar gael i unigolion a oedd yn derbyn gofal a chefnogaeth mewn cartref preswyl neu gartref gofal. Roedd yn gytundeb rhwng yr unigolyn a oedd yn derbyn gofal a'r Cyngor a oedd yn caniatáu ar gyfer gohirio neu oedi talu costau gofal tan ddyddiad diweddarach. Roedd y costau gohiriedig yn cael eu had-dalu yn y dyfodol.

Yn ystod yr Archwiliad Mewnol o'r broses Taliadau Gohiriedig bresennol, nodwyd wyth mater yr oedd angen gweithredu arnynt. Roedd pump ohonynt yn goch a thri ohonynt yn oren. Ers cwblhau'r adroddiad archwilio roedd y Tîm Asesiadau Ariannol a Chodi Tâl wedi sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i fynd i'r afael â'r camau gweithredu a gytunwyd, roedd y gwaith hwn yn cael ei wneud ochr yn ochr â gweithredu system meddalwedd cyllid newydd a fyddai'n cefnogi'r mesurau monitro a rheoli ychwanegol a nodwyd yn yr adroddiad archwilio.

Roedd yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y wybodaeth ar y camau gweithredu a gymerwyd ers cwblhau'r adroddiad Archwilio Mewnol yn cael ei nodi; a

(b) Bod yr Aelodau yn derbyn sicrwydd bod y camau gweithredu sy'n weddill yn cael eu cyflawni o fewn y terfynau amser a nodwyd yn yr adroddiad archwilio a bod y cynnydd yn cael ei fonitro'n effeithiol.

## 14. CRACIAU YN Y SYLFEINI - DIOGELWCH ADEILADAU YNG NGHYMRU – ADRODDIAD ARCHWILIO CYMRU

Cyflwynodd y Cynghorydd Bithell yr adroddiad ac eglurodd fod Archwilio Cymru, yn ôl ym mis Awst 2023, wedi cyhoeddi adroddiad ar Reoli Adeiladu yng Nghymru o'r enw 'Craciau yn y Sylfeini' i ddeall pa mor dda yr oedd Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'u partneriaid yn cryfhau ac yn gwella gwasanaethau rheoli adeiladu a diogelwch adeiladau yn dilyn Deddf Diogelwch Adeiladau 2022.

Roedd adroddiad Archwilio Cymru yn edrych ar yr holl Awdurdodau Rheoli Adeiladu yng Nghymru a sut yr oedd pob un yn paratoi i ymgymryd â chyfrifoldebau a gofynion uwch y Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022. Roedd yn canolbwyntio ar gydnerthedd gwasanaethau presennol a chadernid systemau sicrwydd diogelwch adeiladau.

Roedd canfyddiadau'r adroddiad yn rhoi trosolwg hanfodol ac yn codi pryderon nad oedd digon o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i wasanaethau Rheoli Adeiladu. Roedd yn awgrymu bod diffyg trefniadau cynllunio cadarn a phenderfyniadau clir ac adnoddau annigonol gan beri pryderon na fyddai cyfrifoldebau a gofynion newydd y Ddeddf 2022 yn cael eu bodloni fel y bwriadwyd yng Nghymru.

Gwnaed wyth argymhelliad gan Archwilio Cymru, roedd pedwar ohonynt wedi'u cyfeirio at Lywodraeth Cymru a phedwar wedi'u cyfeirio at Awdurdodau Lleol. Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi trosolwg o adolygiad Archwilio Cymru, eu hargymhellion a'r ymateb i'r argymhellion hynny a'r camau oedd angen eu cymryd.

Eglurodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) bod adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi yr wythnos flaenorol a gofynnwyd cwestiynau ynglŷn ag ymateb y Cyngor i'r argymhellion, yn enwedig o amgylch gosod ffi a chynnydd ar amserlenni a oedd wedi'u hamlinellu yn atodiad 1.

**PENDERFYNWYD:**

Bod canlyniad adroddiad Archwilio Cymru yn cael ei nodi a bod y camau i'w cymryd i fynd i'r afael â'r pedwar argymhelliad a wnaed i Awdurdodau Lleol yn cael eu cefnogi.

## 15. RHEOLI CYRCHFAN

Cyflwynodd y Cynghorydd Roberts yr adroddiad ar ran y Cynghorydd Healey a darllenodd ddatganiad a oedd wedi'i baratoi ymlaen llaw.

Roedd yr adroddiad yn nodi bod twristiaeth yn cynhyrchu cyfraniad blynyddol amcangyfrifedig o £325 miliwn i economi Sir y Fflint, gan gefnogi tua 3,300 o swyddi.

Roedd y Cynllun Rheoli Cyrchfan drafft wedi cael ei lunio ar y cyd â phartneriaeth eang o fusnesau ac asiantaethau partner er mwyn ymgymryd â dull cydweithredol o ran cefnogi datblygiad y sector economi ymwelwyr ac ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd a fyddai'n cael eu hwynebu dros y blynyddoedd nesaf.

Eglurodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) bod yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi lle'r oedd y ffrydiau gwaith wedi cael eu harchwilio'n fanwl, gan ganolbwyntio ar y ffaith fod y Cyngor yn ddibynnol ar arian y gronfa ffyniant gyffredin, treth ar dwristiaeth, treth ar ail gartrefi a'r strategaeth toiledau.

**PENDERFYNWYD:**

Cefnogi fersiwn ddrafft y Cynllun Rheoli Cyrchfan.

## 16. FFIOEDD GWRESOGI ARDALOEDD CYMUNEDOL 2023/25

Cyflwynodd y Cynghorydd Bibby yr adroddiad ac eglurodd fod y Cyngor yn gweithredu wyth cynllun gwresogi ardaloedd cymunedol yn Sir y Fflint, gyda 417 o eiddo ar systemau gwresogi ardaloedd cymunedol.

Roedd y Cyngor wedi aildrafod y tariff tanwydd ar gyfer 2024/25 gan fod y contract blaenorol wedi dod i ben ym mis Mawrth 2024. Roedd disgwyl i'r gyfradd i'w chodi am nwy ostwng o tua 51% dros y 12 mis nesaf. Roedd deiliaid contract cymunedol yn cael biliau yn seiliedig ar gyfradd Contract Diwydiannol a Masnachol y Cyngor ac er bod prisiau trydan a nwy yn parhau i fod ddwywaith yn uwch na phrisiau cyfartalog hanesyddol, roedd cyfraddau contract nwy y Cyngor yn awr yn lleihau o'u pwynt uchel yn 2022/23.

Roedd y ffioedd gwresogi ardaloedd cymunedol newydd yn seiliedig ar ddefnydd ynni'r flwyddyn flaenorol gan sicrhau asesiad cywir o gostau ac effeithiau ar y gronfa wresogi wrth gefn. Er mwyn adennill y ffioedd gwresogi a ragwelir yn llawn, roedd angen i'r Cyngor alinio ffioedd gwresogi ardaloedd cymunedol i sicrhau eu bod yn adennill y gost yn llawn. Roedd y taliadau arfaethedig i'w hailgodi yn 2024/25 wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad.

Ychwanegodd y Prif Swyddog (Tai a Chymunedau) y byddai'r Cyngor yn cyflwyno dull fesul cam yn 2024/25 o ran biliau unigol i bob contract cymunedol yn seiliedig ar ddefnydd gwirioneddol yn hytrach na phris cyfrannol oherwydd gofynion Rheoliadau'r Rhwydwaith Gwresogi (Mesur a Bilio).

Roedd y Cyngor wedi dechrau ar osod mesuryddion unigol ym mhob un o anheddau'r Cyngor o fewn y CRT, a oedd yn cael eu gwasanaethau gan system wresogi gymunedol. Roedd hyn yn cynnwys cysylltu'r mesuryddion newydd â phorth er mwyn i'r Cyngor allu darparu datganiad cywir o ddefnydd ynni i ddeiliaid contract a chyflwyno eu biliau yn unol â hynny. Roedd y Cyngor hefyd wrthi'n gosod rheolyddion gwresogi ychwanegol yng nghartrefi deiliaid contract lle'r oedd hynny'n ymarferol, er mwyn iddynt allu rheoli a rheoleiddio eu gwres yn unigol. Byddai'r gwaith hynny wedi'i gwblhau o fewn blwyddyn ariannol 2024/25.

Roedd yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Tai a Chymunedau lle'r oedd y newidiadau arfaethedig i'r ffioedd gwresogi yn cael eu cefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y newidiadau i'r ffioedd gwresogi cyfredol yn adeiladau'r Cyngor sydd â systemau gwresogi cymunedol fel yr amlinellir yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Bod yr holl newidiadau yn dod i rym o 31 Gorffennaf 2024.

## 17. TREFNIANT 'PRYNU'N ÔL' YN DEFNYDDIO RHAGLEN GYFALAF AR GYFER LLETY DROS DRO LLYWODRAETH CYMRU

Cyflwynodd y Cynghorydd Bibby yr adroddiad gan egluro yr arferai'r eiddo yn 93 a 95 Ffordd Penarlâg yn Yr Hôb gael ei osod yn fasnachol fel bwyty / safle bwyd i fynd. Roedd yr eiddo wedi bod yn wag ers blynyddoedd ac wedi mynd yn adfail.

Roedd y broses gyfreithiol o ddod â'r math yno o brydles fasnachol i ben yn faith iawn. Tynnwyd yr eiddo o'r brydles y llynedd a'u dychwelyd i'r Cyngor ac roeddent wedi cael eu gwneud yn ddiogel.

Fel cyn gartrefi'r Cyfrif Refeniw Tai, roeddent yn ddelfrydol ar gyfer bodloni'r meini prawf a osodwyd gan Lywodraeth Cymru o dan y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro. Roedd hwn yn arian dyraniad haen uchaf o'r Grant Tai Cymdeithasol i ddod ag eiddo adfeiliedig neu wag yn ôl i ddefnydd yn gyflym i fynd i'r afael â'r argyfwng digartrefedd ar draws y DU.

Ceisiwyd awdurdod i gwblhau trosglwyddiad mewnol o 93 a 95 Ffordd Penarlâg, Yr Hôb o gronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Refeniw Tai yn cynnwys cost drosglwyddo o £0.150 miliwn o'r Cyfrif Refeniw Tai i gronfa'r Cyngor (£0.075 miliwn yr annedd). Hefyd, i nodi'r costau prosiect ac ailwampio ar gyfer yr eiddo a gymeradwywyd yn defnyddio pwerau dirprwyedig yn amodol ar grant y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro gan Lywodraeth Cymru fel y manylwyd yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y cais i drosglwyddo'r eiddo yn fewnol o gronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Refeniw Tai am gost o £0.150 miliwn yn cael ei gymeradwyo.

## 18. ARFER PWERAU DIRPRWYEDIG

Cyflwynwyd eitem er gwybodaeth am y camau gweithredu a gymerwyd o dan bwerau dirprwyedig. Y rhain oedd y camau gweithredu dan sylw:-

**Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth**

- **Cynnig i Adeiladu Croesfan Pâl i Gerddwyr ar yr A548 Ffordd Caer, Y Fflint**
  Nodi bod gwrthwynebiadau ffurfiol wedi cael eu derbyn fel rhan o'r weithdrefn ymgynghori statudol sydd wedi cael eu hadolygu a'u hystyried yn deg. Mae'r adroddiad dirprwyedig hwn yn cadarnhau cynnydd y cynigion i adeiladu Croesfan Pâl ar yr A548 Ffordd Caer, Y Fflint, yn cynnwys mân ddiwygiadau i'r dyluniad a hysbysebwyd.

- **Cynnig i Adeiladu Cyfleuster Croesfan Pâl ar y B5444 Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug**
  Nodi bod gwrthwynebiadau ffurfiol wedi cael eu derbyn fel rhan o'r weithdrefn ymgynghori statudol sydd wedi cael eu hadolygu a'u hystyried yn deg. Mae'r adroddiad dirprwyedig hwn yn cadarnhau cynnydd y cynigion i adeiladu Croesfan Pâl ar y B5444 Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug.

- **Cynnig i Adeiladu Croesfan Sebra ar Ffordd Llewelyn, Y Fflint**
  Nodi bod gwrthwynebiadau ffurfiol wedi cael eu derbyn fel rhan o'r weithdrefn ymgynghori statudol sydd wedi cael eu hadolygu a'u hystyried yn deg. Mae'r adroddiad dirprwyedig hwn yn cadarnhau cynnydd y

cynigion i adeiladu Croesfan Sebra ar Ffordd Llywelyn, Y Fflint, yn cynnwys mân ddiwygiadau i'r dyluniad a hysbysebwyd.

- **Cynnig i Adeiladu Croesfan Pâl i Gerddwyr ar yr A5119 Ffordd Fawr, Sychdyn**
  Nodi bod gwrthwynebiadau ffurfiol wedi cael eu derbyn fel rhan o'r weithdrefn ymgynghori statudol sydd wedi cael eu hadolygu a'u hystyried yn deg. Mae'r adroddiad dirprwyedig hwn yn cadarnhau cynnydd y cynigion i adeiladu Croesfan Pâl ar yr A5119 Ffordd Fawr, Sychdyn.

- **Cynnig i Adeiladu Croesfan Pâl i Gerddwyr ar yr A5119 Ffordd Rhuthun, Yr Wyddgrug**
  Nodi bod gwrthwynebiadau ffurfiol wedi cael eu derbyn fel rhan o'r weithdrefn ymgynghori statudol sydd wedi cael eu hadolygu a'u hystyried yn deg. Mae'r adroddiad dirprwyedig hwn yn cadarnhau cynnydd y cynigion i adeiladu Croesfan Pâl ar yr A5119 Ffordd Rhuthun, Yr Wyddgrug.

- **Cynnig i Weithredu Cyfyngiadau Aros (llinellau melyn dwbl), ar y B5444 Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug**
  Nodi bod gwrthwynebiadau ffurfiol wedi cael eu derbyn fel rhan o'r weithdrefn ymgynghori statudol sydd wedi cael eu hadolygu a'u hystyried yn deg. Mae'r adroddiad dirprwyedig hwn yn cadarnhau cynnydd y cynigion i weithredu cyfyngiadau aros (llinellau melyn dwbl), ar y B5444 Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug.

- **Cynnig i Ostwng y Terfyn Cyflymder Presennol o 40mya ar yr A5026 Ffordd Holway, Treffynnon a Chyflwyno Ffordd Gyfyngedig (20mya) ar Adran o'r A5026 Ffordd Holway, Treffynnon a'r A5026 Whitford Street**
  Nodi bod gwrthwynebiad ffurfiol wedi cael ei dderbyn fel rhan o'r weithdrefn ymgynghori statudol sydd wedi cael ei adolygu a'i ystyried yn deg. Mae'r adroddiad dirprwyedig hwn yn cadarnhau cynnydd y cynigion i ostwng y terfyn cyflymder presennol o 40mya ar yr A5026 Ffordd Holway, Treffynnon a chyflwyno Ffordd Gyfyngedig (20mya) ar Adran o'r A5026 Ffordd Holway a'r A5026 Whitford Street, Treffynnon.

<u>**Tai a Chymunedau**</u>

- **Gordaliadau Budd-dal Tai**
  Mae Rheolau Gweithdrefnau Ariannol (adran 9.6) - Incwm a Gwariant, yn amodi y dylid rhoi gwybod i'r Pennaeth Cyllid am unrhyw ddyled unigol sydd werth rhwng £10,000 a £25,000, er mwyn ystyried ei dileu, ar y cyd â'r Aelod Cabinet Cyllid. Mae'r atodlen sydd ynghlwm wrth yr adroddiad pwerau dirprwyedig yn nodi Gordaliad Budd-dal Tai lle bo'r ddyled gyffredinol yn fwy na £10,000.

<u>**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**</u>

<u>**PENDERFYNWYD**</u>**:**

Bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig dan baragraff(au) 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

## 19. YMESTYN CONTRACT GWASANAETHAU YSWIRIANT

Cyflwynodd y Cynghorydd Johnson adroddiad a oedd yn rhoi manylion am y contract Gwasanaethau Yswiriant presennol a'r estyniad arfaethedig.

**PENDERFYNWYD:**

Bod yr estyniad dwy flynedd, hyd at 31 Mawrth 2027, i'r Cytundebau Hirdymor presennol gyda Zurich Municipal a Phartneriaid Rheoli Risg yn cael ei gymeradwyo.

## 20. AIL-GOMISIYNU GWASANAETHAU CYFLEOEDD DYDD A GWAITH OEDOLION GYDAG ANABLEDDAU DYSGU

Cyflwynodd y Cynghorydd Jones yr adroddiad a darparodd y wybodaeth ddiweddaraf am ail-gomisiynu gwasanaethau cyfleoedd dydd a gwaith oedolion gydag anableddau dysgu.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y contract cyfredol i'r darparwr gwasanaeth presennol am wasanaethau cyfleoedd dydd a gwaith oedolion gydag anableddau dysgu, a gaiff ei ddarparu gan Hft, yn cael ei gymeradwyo. Cynigir y byddai'r estyniad am gyfnod o bum mlynedd a 2 fis arall gan ddechrau ar 1 Chwefror 2025, gyda'r dewis i ymestyn y contract am ddwy flynedd arall, felly byddai'n dod i ben ar 31 Mawrth 2032. Mae'r gwariant disgwyliedig ar gyfer y dyfarniad contract arfaethedig yn golygu bod y penderfyniad am ddyfarniadau uniongyrchol hirdymor angen penderfyniad Cabinet yn ôl y trothwyon i'r awdurdod gymeradwyo amrywiadau sylweddol fel y nodir yn Rheolau Gweithdrefn Gontractau'r awdurdod lleol; a

(a) Bod dyfarniad uniongyrchol y contract i'r darparwr gwasanaeth presennol am wasanaethau cyfleoedd dydd a gwaith oedolion gydag anableddau dysgu, a gaiff ei ddarparu gan CBC Clocktower fel y manylwyd yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cynigir y byddai'r Dyfarniad Uniongyrchol am gyfnod o bum mlynedd gan ddechrau ar 1 Ebrill 2025, gyda'r dewis i ymestyn y contract am ddwy flynedd arall, felly byddai'n dod i ben ar 31 Mawrth 2032. Mae'r gwariant disgwyliedig ar gyfer y dyfarniad contract arfaethedig yn golygu bod y penderfyniad am ddyfarniadau uniongyrchol hirdymor angen penderfyniad Cabinet neu benderfyniad dirprwyedig yn ôl y trothwyon i'r awdurdod gymeradwyo eithriadau fel y nodir yn Rheolau'r Weithdrefn Gontractau.

## 21. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.47am)

……………………………

**Y Cadeirydd**